# cwmpas

Creu newid economaidd a chymdeithasol

# Adroddiad Effaith 2022-2023



# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Busnesau sy'n cael cymorth *gan Busnes Cymdeithasol Cymru*

**631**

Swyddi a grëwyd *gan dimau Busnes Cymdeithasol Cymru*

**187**

Busnesau cymdeithasol newydd a ymgorfforwyd *gan dîm Dechrau Newydd Busnes Cymdeithasol Cymru*

**63**

Busnesau newydd sy'n eiddo i'r gweithwyr

**11**

Swyddi a ddiogelwyd

**285**

Pobl a gynorthwywyd i fynd ar-lein trwy *gyfrwng Cymunedau Digidol Cymru*

**40,201**

Staff neu wirfoddolwyr a hyfforddwyd gan *Cymunedau Digidol Cymru er mwyn ennill sgiliau digidol*

**2,741**

Grwpiau a sefydliadau a gynorthwywyd i ddatblygu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol

**24**

Y swm a godwyd trwy gyfrwng cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol

**£1,181,205**

Grwpiau a sefydliadau a gynorthwywyd i ddatblygu tai a arweinir gan y gymuned

**39**

Y trosiant a gynhyrchwyd trwy gyfrwng incwm o dan gontract ac incwm grant

**£7.3m**

Staff a ddywedodd y byddent yn argymell Cwmpas fel lle gwych i weithio ynddo

**91%**

Staff a ddywedodd eu bod yn falch o gael gweithio yma

**93%**

Sgôr bodlonrwydd cleientiaid

**6.52/7**





# Ein gwaith

## Creu economi decach a gwyrddach

Creu economi decach a gwyrddach – Rydym yn gweithio i gynyddu'r gyfran o'r economi sy'n cynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr.

## Adeiladu cymdeithas fwy cyfartal

Rydym yn gweithio i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol trwy gynyddu mynediad, tegwch, amrywiaeth a chyfranogiad.

## Gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd

Rydym yn cydweithio â phobl a sefydliadau i weithredu er lles y gymdeithas.

# Ein huchafbwyntiau

**Yma, mae Bethan Webber, ein Prif Weithredwr, yn sôn am y pethau allweddol a gyflawnodd y sefydliad yn ystod y deuddeg mis diwethaf**

Fel Prif Swyddog Gweithredol newydd Cwmpas, pleser yw cael cyflwyno fy Adroddiad Effaith cyntaf. Er nad wyf wedi gweithio i'r sefydliad yn hir, mae ymroddiad ac angerdd ein staff tuag at greu Cymru well i bawb wedi creu argraff fawr arnaf eisoes. Mae gan Cwmpas, fel un o'r asiantaethau datblygu mwyaf yng Nghymru, botensial enfawr inni ysgogi newid a chael effaith gadarnhaol ar yr economi.

Mae ein system economaidd bresennol yn canolbwyntio ar werth ariannol ac mae hi o fudd anghymesur i ychydig iawn o bobl, tra caiff nifer ohonom ein gadael ar ôl. Mae hyn yn fwyfwy amlwg ar ôl y pandemig, gan fod y rhai a oedd eisoes yn wynebu'r anfanteision mwyaf wedi dioddef yn anghymesur yn sgil y pandemig. Mae Cwmpas yn hyrwyddo system wahanol yn yr economi trwy fynd ati i gefnogi busnesau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a'r sector cymdeithasol ehangach trwy gyfrwng ein hamryfal raglenni. Erbyn hyn, mae ein rôl o ran creu economi decach a gwyrddach yn bwysicach fyth yn sgil yr argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd. Gallwn helpu i ddatblygu perchnogaeth gymunedol o fusenau a chyfoeth a grymuso cymunedau i gael dweud eu dweud yn y broses benderfynu. Gallwn gynorthwyo sectorau eraill i feithrin eu dealltwriaeth a'u gallu fel y gellir cynnwys cymunedau i raddau mwy yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol ac yn atgynhyrchiol.

Yn 2022-23, daeth newidiadau mawr i ran Cwmpas, yn cynnwys ail-frandio Canolfan Cydweithredol Cymru yn 'Cwmpas'. Mae'r hunaniaeth brand newydd hon yn ein galluogi i gyfleu yn well ein ffocws ar newid cymdeithasol ac economaidd a chynnig amrywiaeth ehangach o raglenni mewn meysydd fel entrepreneuriaeth gymdeithasol, datblygu busnesau, tai, cynhwysiant digidol, trawsnewid digidol, gofal cymdeithasol, a gwerth cymdeithasol.



Eleni, gwelwyd cynnydd mawr yn y nifer o fusnesau a aeth ati i bontio tuag at fod yn fusnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr. Yng Nghymru erbyn hyn, ceir 57 o fusnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr – bron ddwywaith y nifer o gymharu â thair blynedd yn ôl.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i bontio oddi wrth gyllid strwythurol yr UE ac rydym wedi bod wrthi'n datblygu rhaglenni a blaenoriaethau newydd a fydd yn caniatáu inni ffynnu yn yr amgylchedd cyllido newydd. Llwyddodd un o'n rhaglenni blaenllaw, sef Busnes Cymdeithasol Cymru, i gael arian gan Lywodraeth Cymru i barhau i gynorthwyo busnesau cymdeithasol, ochr yn ochr â phartneriaid y consortiwm, sef Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, UnLtd a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion Lerpwl a Loughborough i ddatblygu Safonau Gofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru, yn cyd-fynd â'r Nodau Llesiant cenedlaethol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd i ddod.

Ymhellach, mae ein gwaith Twf Busnes a'n gwaith Ymgynghori wedi ffynnu mewn blwyddyn yn llawn twf cyflym – buom yn gweithio gyda 38 o gleientiaid masnachol o gwmpas arloesi, digidol a gwerth cymdeithasol, fe wnaethom ymestyn i Loegr, ac aethom ati i lansio rhaglenni hyfforddi ac arwain cymdeithasol newydd, a hefyd fe wnaethom gynyddu nifer ein capasity staff.

Wrth edrych tua'r dyfodol, fy ngweledigaeth yw adeiladu ar y sylfeini cryf yma yn barod i fwrw ymlaen â'r gwaith I ddatblygu ein effaith gadarnhaol yng Nghymru a tu hwnt. Rydw i'n llawn cyffro o gael gweithio gyda'r bwrdd cyfarwyddwyr, ein staff a'n partneriaid i hyrwyddo economi decach, wyrddach, a ysgogir i raddau helaethach gan y gymuned.



# Rhaglenni a gyflawnwyd gan Cwmpas

## Busnes Cymdeithasol Cymru

Eleni, llwyddodd tîm *Busnes Cymdeithasol Cymru* i gynorthwyo 63 o egin fusnesau a helpu 631 o fusnesau cymdeithasol i dyfu, gan greu 146 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a diogelu 285 o swyddi eraill. Mae ysgogi mentrau cymdeithasol a grymuso cymunedau yn hollbwysig o ran adeiladu mannau ffyniannus, cynaliadwy a gwydn, ac mae'r cymorth sydd ar gael trwy gyfrwng Busnes Cymdeithasol Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn hollbwysig o ran ehangu maint y sector. Hefyd, llwyddodd Busnes Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo busnesau i drosglwyddo i ddwylo'r gweithwyr trwy gyfrwng trefniadau perchnogaeth gan y gweithwyr – cymorth a ariannwyd yn gyfan gwbl. Yng Nghymru eleni, fe wnaethom helpu i sefydlu 11 o fusnesau newydd a oedd yn eiddo i'r gweithwyr. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae'r sector hwn yn fwyfwy amlwg bellach yn economi Cymru.

## Prosiect Gwydnwch Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

Trwy fod yn berchen ar asedau cymunedol, mae gan gymunedau lleol well rheolaeth ar eu hadnoddau a'u hasedau eu hunain, ac yn ei dro gall hyn arwain at fwy o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae hefyd yn helpu i hyrwyddo ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth gymunedol, gan arwain at gymunedau cryfach a gwytnach. Mae ein rhaglen buddsoddi cymunedol, a ariennir gan Gronfa Gymunedol Cymru y Loteri Genedlaethol, yn helpu cymunedau i ddiogelu, prynu a chryfhau eu hasedau. Eleni, fe wnaethom gynorthwyo 24 o gymunedau i baratoi cynllun cyfranddaliadau. Lansiwyd chwech ohonynt yn ystod y flwyddyn a llwyddwyd i godi £1,181,205 ar gyfer prynu ased lleol.

## Cymunedau Digidol Cymru

Mae cynhwysiant digidol yn bwysig i Gymru, oherwydd mae'n helpu i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at y cyfleoedd a'r manteision a ddaw yn sgil y byd digidol. Gall cynhwysiant digidol wella mynediad at addysg, gwaith, gofal iechyd a gwasanaethau'r llywodraeth, a hefyd gall helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol. Trwy fynd i'r afael â'r gagendor digidol a thrwy ddarparu hyfforddiant a chymorth i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, mae Cymunedau Digidol Cymru yn creu cymdeithas fwy cyfartal a chysylltiedig. Diolch i gymorth ariannol parhaus gan Lywodraeth Cymru, eleni fe wnaeth tîm Cymunedau Digidol Cymru gynorthwyo 40,201 o bobl i fynd ar-lein ynghyd â hyfforddi 2,741 o staff a gwirfoddolwyr mewn sgiliau digidol.

## Cymunedau'n Creu Cartrefi

Mae tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned yn cynnig cyfle i bobl ddod ynghyd a phennu sut fath o gartrefi a chymunedau y dymunant fyw ynddynt. Gan gydweithio â chynghorau, buddsoddwyr a datblygwyr, mae'r grwpiau hyn yn hanfodol o ran creu opsiynau tai fforddiadwy sy'n ymdrin ag anghenion penodol cymunedau lleol. Eleni, bu modd inni gynorthwyo 3 o gwmnïau tai cydweithredol a oedd yn gyfrifol am reoli 26 o gartrefi, a hefyd aethom i'r afael â gwaith gyda 36 o grwpiau a oedd â'r potensial i ddatblygu hyd at 269 o gartrefi cydweithredol newydd. Diolch i gefnogaeth ariannol gan Sefydliad Nationwide a Llywodraeth Cymru, bu modd inni roi cymorth hanfodol i'r grwpiau hyn a hyrwyddo ychwaneg o atebion tai cynhwysol a arweinir gan y gymuned.

# Ein gwaith ledled Cymru

## Gogledd Cymru

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith yng Ngogledd Cymru wedi canolbwyntio ar wella sgiliau, hyrwyddo cyfleoedd economaidd a gwella hyder digidol ymhlith pobl hŷn. Mae ein mentrau wedi galluogi pobl i ddysgu sgiliau digidol ac maent wedi helpu i sefydlu ac ymestyn mentrau cymdeithasol mewn sectorau allweddol fel twristiaeth a'r diwydiannau creadigol, gan arwain at wella cyfleoedd gwaith, datblygu gweithlu medrus a chreu cymunedau mwy cydlynus yn y rhanbarth.

rhoddwyd cymorth i **161** o fusnesau cymdeithasol

cynorthwywyd **76** o bobl i ddechrau menter gymdeithasol

cofrestrwyd **17** o fusnesau cymdeithasol newydd

**58** diogelwyd 58 o swyddi trwy gyfrwng trefniadau perchogaeth gan y gweithwyr

cynorthwywyd **3,278** o bobl i deimlo'n hyderus gyda'r byd digidol

**55** fe wnaeth 55 o sefydliadau ymwreiddio cynhwysiant digidol yn eu gwaith cyflawni strategol

rhoddwyd cymorth i 6 o grwpiau a oedd â'r potensial i greu **30** o gartrefi a arweinir gan y gymuned

rhoddwyd help i 1 grŵp tai presennol a arweinir gan y gymuned, a chanddo **5** o gartrefi, gan ei gynorthwyo i dyfu, newid a datblygu

**7** gweithiodd 7 o gymunedau gyda ni i ddatblygu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol

llwyddodd 2 gymuned i godi **£213,035** trwy gyfrwng cyfranddaliadau cymunedol er mwyn prynu ased lleol



## **Menter Ty'n Llan** – cleient *Busnes Cymdeithasol Cymru a Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru*

Lleolir Cymdeithas Budd Cymunedol Menter Ty'n Llan yn Llandwrog. Enillodd y wobr 'Un i'w Wylio' yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru yn 2022 ar sail y gwaith a wnaeth i drawsnewid unig dafarndy'r pentref, sef Ty'n Llan, yn lleoliad cymunedol amlbwrpas. Adeiladwyd yr adeilad rhestredig Gradd II hanesyddol yn y 1860au fel rhan o ystâd Glynllifon, a thros y blynyddoedd mae wedi lletya beirdd, cantorion ac enwogion. Caeodd y tafarndy yn 2017, gan amddifadu'r pentref o fan cyfarfod. Ym mis Chwefror 2021, aeth mwy na 100 o'r pentrefwyr ati i brynu'r adeilad er mwyn diogelu ei ddyfodol. Sefydlwyd Menter Ty'n Llan gyda phwyllgor a oedd yn cynnwys 14 o aelodau profiadol. Agorodd drysau Ty'n Llan drachefn ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r gwaith codi arian yn parhau i greu canolfan gymunedol fywiog â bar cyfoes, bwyty, ystafelloedd gwely moethus, ystafell gymunedol, gardd gwrw, a digonedd o leoedd parcio gyda man gwefru ceir trydan.




## **Creu Menter** – *cleient Cymunedau Digidol* Cymru

Mae Creu Menter, sef un o is-gwmnïau Cartrefi Conwy, yn cynnwys tîm o hyrwyddwyr digidol sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth i denantiaid ac i'r gymuned. Mae'r gwirfoddolwyr hyn, a hyfforddwyd gan Cymunedau Digidol Cymru, yn cynnig cymorth personol yn ymwneud ag amryfal bynciau. Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr llesiant COVID-19, aelodau o Academi Gyflogaeth Creu Menter, tenantiaid Cartrefi Conwy, a phobl a fynychodd hyfforddiant yn y gorffennol. Hefyd, gall y tenantiaid elwa ar y cynllun Benthyg TG, gan gael benthyg cyfrifiaduron llechi am dri mis. Mae hyn yn galluogi pobl i gael gafael ar dechnoleg na fyddai modd iddynt gael gafael arni fel arall, o bosibl. Mae'r hyrwyddwyr yn addasu eu dull er mwyn gweddu i anghenion unigol, gan fynd ati'n ofalus i annog pobl i feithrin eu sgiliau. Mae'r sesiynau hyfforddi wedi bod yn hynod effeithiol, gan wella hyder a sgiliau technoleg pobl a meithrin cysylltiadau cymdeithasol ymhlith y cyfranogwyr.

## Canolbarth Cymru

Yn 2022/23, roedd ein gwaith yng Nghanolbarth Cymru yn anelu at ategu economi amrywiol y rhanbarth. Fe wnaethom ganolbwyntio ar fusnesau cymdeithasol mewn sectorau fel gofal cymdeithasol, iechyd, ynni adnewyddadwy, cynhyrchu bwyd a manwerthu. Mae'r busnesau hyn yn hollbwysig o ran hyrwyddo cynaliadwyedd ac ysgogi twf economaidd. Ymhellach, buom yn gweithio ar brosiectau tai a arweinir gan y gymuned a phrosiectau trosglwyddo asedau cymunedol, gan ddwyn pobl ynghyd i ddylanwadu ar y cartrefi a'r cymunedau a chwenychant a diwallu anghenion penodol y boblogaeth leol.



rhoddwyd cymorth i **47** o fusnesau cymdeithasol

cynorthwywyd **11** o bobl i ddechrau menter gymdeithasol

cofrestrwyd **3** busnes cymdeithasol newydd

**29** diogelwyd 29 o swyddi trwy gyfrwng trefniadau perchnogaeth gan y gweithwyr

cynorthwywyd **1,191** o bobl i deimlo'n hyderus gyda'r byd digidol

**10** fe wnaeth 10 o sefydliadau ymwreiddio cynhwysiant digidol yn eu gwaith cyflawni strategol

rhoddwyd cymorth i 6 o grwpiau a oedd â'r potensial i greu **67** o gartrefi a arweinir gan y gymuned

rhoddwyd help i 1 grŵp tai presennol a arweinir gan y gymuned, a chanddo **7** gartrefi, gan ei gynorthwyo i dyfu, newid a datblygu

**4** gweithiodd 4 o gymunedau gyda ni i ddatblygu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol



## **Tŷ Pren** – cleient *Busnes Cymdeithasol Cymru*

Busnes ecoadeiladu fframiau pren crwn a leolir ger Llanbedr Pont Steffan yw Tŷ Pren. Gyda chymorth Busnes Cymdeithasol Cymru, datblygodd i fod yn gwmni cydweithredol gweithwyr. Mae'r strwythur newydd yn rhoi blaenoriaeth i fanteision cymunedol a phethau sydd o fudd i'r gweithwyr, a bellach caiff y busnes ei redeg yn gyfartal gan y cyn-berchennog Jamie Miller a'r holl dîm.

Bu'r newid hwn yn hollbwysig i ddyfodol Tŷ Pren, oherwydd ei nod yw chwyldroi sector adeiladu'r DU trwy hyrwyddo technegau adeiladu pren crwn fel dewis amgen cynaliadwy ac ecogyfeillgar. Mae'r cwmni'n cydweithio â pherchnogion coetiroedd lleol, gan reoli eu coetiroedd a chael gafael ar bren ar gyfer cynllunio ac adeiladu cartrefi carbon isel. Nod y cwmni yw hyfforddi gweithlu a all weithio'n gynaliadwy gydag adnoddau naturiol, gan ddarparu swyddi ystyrlon a gaiff effaith gadarnhaol ar unigolion a chymunedau.

I Tŷ Pren, mae cynaliadwyedd yn ymestyn y tu hwnt i waith adeiladu. Ei nod yw creu cartrefi fforddiadwy a charbon niwtral a fydd yn cyfrannu at ddiwylliant amgylcheddol flaengar. Mae'r ffaith fod Tŷ Pren yn gwmni cydweithredol gweithwyr yn cyd-fynd â'i ethos a'i weledigaeth.



## **Cwmni Buddiannau Cymunedol Bird Farm** – cleient *Busnes Cymdeithasol Cymru*

Cwmni buddiannau cymunedol ger Llanbedr Pont Steffan yw Bird Farm, ac fe'i lleolir ar dyddyn 10 acer o faint. Ei nod yw meithrin cysylltiadau a gwella llesiant unigolion trwy gyfrwng natur, sgiliau gwledig a gweithgareddau crefft. Mae ei waith gyda'r gymuned yn canolbwyntio ar greu amgylchedd cynaliadwy a chynhwysol lle gall pobl ddod i gysylltiad â natur a'r awyr agored.

Trwy gyfrwng ei weithdai a'i fentrau gwirfoddoli, mae Cwmni Buddiannau Cymunedol Bird Farn hefyd yn hyrwyddo'r manteision therapiwtig sy'n perthyn i natur, gan gydnabod yr effaith gadarnhaol a gaiff natur ar iechyd meddwl a llesiant cyffredinol. Mae'n cynnig cyfleoedd i unigolion, yn cynnwys unigolion ag anableddau neu fynediad cyfyngedig at natur, gysylltu â byd natur a phrofi ei effeithiau lleddfol ac adfywiol.

Mae gwaith Cwmni Buddiannau Cymunedol Bird Farm yn cryfhau clymau cymunedol, yn ysbrydoli stiwardiaeth amgylcheddol ac yn creu ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at ddiogelu cynefinoedd lleol.

## Gorllewin Cymru

Yn 2022/23, aethom ati i wella bywydau pobl ym mhob rhan o Orllewin Cymru – mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig fel ei gilydd – trwy hybu sgiliau digidol, trwy greu cartrefi diogel a fforddiadwy a thrwy gynorthwyo busnesau cymdeithasol i ddarparu cyfleoedd gwaith o ansawdd da. Bu'r gwaith a wnaethom yn y maes tai a arweinir gan y gymuned yn arbennig o bwysig, gan helpu pobl leol i ysgwyddo rôl arweiniol a pharhaol o ran creu cartrefi diogel a fforddiadwy a chryfhau eu cymunedau.



rhoddwyd cymorth i **188** o fusnesau cymdeithasol

cynorthwywyd **86** o bobl i ddechrau menter gymdeithasol

cofrestrwyd **20** o fusnesau cymdeithasol newydd

**99** diogelwyd 99 o swyddi trwy gyfrwng trefniadau perchnogaeth gan y gweithwyr

cynorthwywyd **3,930** o bobl i deimlo'n hyderus gyda'r byd digidol

**35** fe wnaeth 35 o sefydliadau ymwreiddio cynhwysiant digidol yn eu gwaith cyflawni strategol

rhoddwyd cymorth i 14 o grwpiau a oedd â'r potensial i greu **101** o gartrefi a arweinir gan y gymuned

rhoddwyd help i 1 grŵp tai presennol a arweinir gan y gymuned, a chanddo **14** o gartrefi, gan ei gynorthwyo i dyfu, newid a datblygu

**6** gweithiodd 6 o gymunedau gyda ni i ddatblygu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol

cododd 3 o gymunedau **£965,570** trwy gyfrwng cyfranddaliadau cymunedol ar gyfer prynu ased lleol.



## **Cysylltiadau Digidol Sir Benfro** – cleient *Cymunedau Digidol Cymru*

Mae Cysylltiadau Digidol Sir Benfro yn brosiect a roddir ar waith ar y cyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Cyngor Sir Penfro, Cymunedau Digidol Cymru a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Ar ôl gweld bod y pandemig yn peri i bobl hŷn a bregus gael eu hynysu, fe aeth y prosiect ati i gysylltu pobl gyda gweithgareddau a gwasanaethau digidol a fyddai, yn arferol, wedi cael eu cyflwyno wyneb yn wyneb, gan fynd ati hefyd i gefnogi prosiectau iechyd a llesiant ledled y rhanbarth.

Yn ôl Gwyneth Jones, Rheolwr y Prosiect Cymunedau Cysylltiedig yng Nghymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro: "Profiad anhygoel yw gweld pobl yn mynd i'r afael â thechnoleg ddigidol a chlywed straeon ac adborth y cyfranogwyr . Braf iawn yw gweld y llawenydd a ddaw i ran pobl, yn enwedig os oedd yr unigolyn hwnnw'n teimlo'n unig neu wedi'i ynysu. Gall rhywbeth bach wneud gwahaniaeth mawr."




## **Sunflower Lounge** – cleient *Busnes Cymdeithasol Cymru*

Mae'r Sunflower Lounge yn helpu pobl ifanc i bontio allan o'r system ofal – pobl ifanc sydd, yn aml, yn teimlo'n anweledig yn y gymdeithas ac sy'n wynebu digartrefedd a chamdriniaeth oherwydd diffyg cymorth. Yn ystod eu cyfnod mewn gofal maeth, prin yw cyfleoedd pobl ifanc o'r fath i ddysgu sgiliau hanfodol bywyd a gwneud penderfyniadau. Ar ôl gadael gofal, maent yn wynebu anawsterau gyda phethau fel coginio, cyllidebu, cydberthnasau a gwaith, ac maent yn teimlo'n ynysig ac wedi'u llethu.

O dan arweiniad Helen Davies, mae'r Sunflower Lounge yn cynnig cymorth hanfodol i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod y cyfnodau pontio hyn. Canolbwyntir ar sgiliau bywyd, cyflogadwyedd a llesiant cyffredinol. Mynegodd un person ifanc a gynorthwywyd gan y Sunflower Lounge ddiolchgarwch am y cyfleoedd a'r ddealltwriaeth a gafodd. Pwysleisiodd y person ifanc hwn fod y Sunflower Lounge yn cynnig cymorth unigryw o gymharu â'r profiadau a'r ymyriadau a gafodd yn y gorffennol.

# De Ddwyrain Cymru

Drwy gydol y flwyddyn, aethom ati i gryfhau economi leol ein cymunedau yn Ne Cymru. Gan wneud yn fawr o'n gwerthoedd cydweithredol, fe wnaethom ganolbwyntio ar rymuso busnesau cymdeithasol, meithrin gwydnwch cymunedol, mynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo cynwysoldeb. Nod ein hymdrechion oedd meithrin economi sy'n cynnwys pawb, lle gellir rhannu ffyniant yn deg ledled y rhanbarth, heb adael neb ar ôl.



rhoddwyd cymorth i **235** o fusnesau cymdeithasol

cynorthwywyd **72** o bobl i ddechrau menter gymdeithasol

cofrestrwyd **23** o fusnesau cymdeithasol newydd

**99** diogelwyd 99 o swyddi trwy gyfrwng trefniadau perchnogaeth gan y gweithwyr

cynorthwywyd **30,879** o bobl i deimlo'n hyderus gyda'r byd digidol

**90** fe wnaeth 90 o sefydliadau ymwreiddio cynhwysiant digidol yn eu gwaith cyflawni strategol

rhoddwyd cymorth i 10 o grwpiau a oedd â'r potensial i greu 71

**71** o gartrefi a arweinir gan y gymuned

**7** gweithiodd 7 o gymunedau gyda ni i ddatblygu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol

cododd 1 cymuned **£2,600** trwy gyfrwng cyfranddaliadau cymunedol ar gyfer prynu ased lleol




## Canolfan Filfeddygol Archway – cleient *perchnogaeth gan y gweithwyr Busnes Cymdeithasol Cymru*

Ym mis Chwefror 2023, pontiodd Canolfan Filfeddygol Archway, sydd â changhennau yng Nghas-gwent a Chil-y-coed, o fod yn fusnes arferol i fod yn fusnes perchnogaeth gan y gweithwyr – y practis milfeddygol cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Erbyn hyn, mae'r practis yn eiddo i 26 o'i staff a chaiff ei lywodraethu gan Ymddiriedolaeth Perchnogaeth gan y Gweithwyr. Fe wnaeth Andrea Reynolds, sydd wedi bod yn un o gyfarwyddwyr y busnes ers 2011 – ac a ysgwyddodd unig fuddiant yn y practis anifeiliaid bach yn 2014 – werthu ei buddiant yn y busnes i Ymddiriedolaeth Perchnogaeth gan y Gweithwyr.

Yn ôl Eleanor Gough, sydd newydd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Canolfan Filfeddygol Archway: "Mae ein tîm wedi ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r ffaith ein bod yn Ymddiriedolaeth Perchnogaeth gan y Gweithwyr yn golygu y gallwn barhau i fod yn driw i ni ein hunain a diogelu ethos craidd ein practis am flynyddoedd i ddod."



## Cael y Fro Ar-lein – cleient *Cymunedau Digidol Cymru*

Mae Cael y Fro Ar-lein yn bartneriaeth sy'n cynnwys sefydliadau lleol, a'i chanolbwynt yw cynhwysiant digidol. Mae'r partneriaid yn cynnwys Cymunedau Digidol Cymru, Cymdeithas Tai Newydd, Cartrefi'r Fro, Llyfrgelloedd y Fro, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r Awdurdod Lleol. Gyda'i gilydd, maent yn cefnogi sgiliau digidol, hyder digidol a mynediad at dechnoleg ddigidol yn y Fro. Mae cydweithio yn hollbwysig i lwyddiant y bartneriaeth, oherwydd caiff sefydliadau â meddylfryd tebyg eu dwyn ynghyd i hyrwyddo'r agenda cynhwysiant digidol. Mae Scott Tandy, Arweinydd Digidol Cymdeithas Tai Newydd ac aelod o Cael y Fro Ar-lein, yn pwysleisio pa mor bwysig yw datrys problemau a darparu cymorth ar y cyd. Ni all yr un endid feddu ar yr holl atebion, ond trwy weithio fel cymuned o arweinwyr digidol, gellir cynnig gwasanaeth gwell i bobl sydd mewn angen. Mae'r bartneriaeth yn dibynnu'n fawr ar gefnogaeth pob un o'r sefydliadau sy'n rhan ohoni.

# Ein gwaith polisi

## Yma, mae Dan Roberts, Swyddog Polisi ac Ymchwil, yn cyflwyno trosolwg o'n gwaith polisi a'n gwaith materion cyhoeddus

Un o themâu trawsbynciol Cwmpas yw bod yn sefydliad dylanwadol sy'n defnyddio'i brofiad a'i ddealltwriaeth i newid y ffordd mae'r economi a'r gymdeithas yn gweithio. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm Polisi a Chyfathrebu wedi bod yn ceisio dylanwadu'n rhagweithiol ar yr agenda bolisi. Gwnawn hyn trwy weithio gyda'r tîm staff cyfan i bennu'r rhwystrau sy'n atal twf y sectorau y gweithiwn ynddynt, ynghyd â chynnig atebion arloesol.

Ers cyhoeddi ein hadroddiad "Perchnogaeth gymunedol ar asedau lleol: Galluogi i dai a arweinir gan y gymuned gael eu darparu yng Nghymru", rydym wedi parhau i gyflwyno'r achos dros weithredu argymhellion yr adroddiad. Cawsom wahoddiad i gyflwyno tystiolaeth gerbron Ymchwiliad y Senedd ynglŷn â grymuso cymunedau, ac yn sgil hyn penderfynodd y Pwyllgor gefnogi nifer o'n safbwyntiau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Comisiwn ffurfiol i archwilio'r maes hwn, ac edrychwn ymlaen at gyfrannu ato.

Rydym wedi cwblhau cam cyntaf ein gwaith ymchwil ynglŷn â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ochr yn ochr â Phrifysgolion Lerpwl a Loughborough. Tynnodd yr adroddiad sylw at y gefnogaeth a geir ymhlith rhanddeiliaid allweddol ar gyfer sefydlu'r mesur sylfaenol hwn, ac archwiliwyd sut gellid diffinio mesur o'r fath ar ôl cynnal grwpiau ffocws gyda theuluoedd ifanc a phlant. Yn awr, rydym yn dechrau ar ail gam y gwaith ymchwil hwn, gan ymchwilio i'r hyn a allai fod yn gam hollbwysig ymlaen o ran sicrhau cynhwysiant a chadernid digidol yng Nghymru.

Rydym wedi parhau i hwyluso Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfeddiannol. Ym mis Hydref, trafododd y grŵp atebion cydweithredol ar gyfer yr argyfwng costau byw. Cofrestrodd mwy na 200 o bobl i fynychu'r digwyddiad – y nifer fwyaf o fynychwyr yn hanes unrhyw un o gyfarfodydd y Grwpiau Trawsbleidiol – gan adlewyrchu maint yr argyfwng a'r galw am ddulliau ac atebion newydd. Hefyd, trafododd y



grŵp faterion allweddol eraill fel partneriaethau cymdeithasol, yr heriau sy'n wynebu pobl hunangyflogedig a'r argyfwng gofal cymdeithasol.

Rhan allweddol o'n gwaith drwy gydol y flwyddyn fu adeiladu economïau lleol cryfach trwy adeiladu cyfoeth cymunedol. Ar ôl i adroddiad Archwilio Cymru gael ei gyhoeddi, lle galwyd ar awdurdodau lleol i wneud mwy i gynorthwyo mentrau cymdeithasol yn eu rhanbarthau, rydym wedi parhau i hyrwyddo ein gofynion polisi allweddol ymhlith awdurdodau lleol mewn perthynas â chymorth arbenigol, caffael ac ymgysylltu rhagweithiol gyda'r sector. Hefyd, fe wnaethom fynychu cynadleddau Plaid Cymru a Phlaid Lafur Cymru, gan hyrwyddo ein huchelgais i ddatblygu economïau lleol cydweithredol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â materion allweddol, fel y strategaeth arloesi, y fframwaith presgripsiynu cymdeithasol, diwygio gofal cymdeithasol, a datgarboneiddio er mwyn hyrwyddo'r rôl hollbwysig y gellid ei chyflawni gan fodelau mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol yn yr agendâu hyn.





cwmpas

# Our consultancy work

**Yma, mae Sarah Evans, ein Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghori, yn crynhoi effaith ein gwaith ymgynghori**

## Ymgynghorwyr ar gyfer Newid Cadarnhaol

Mae Tîm Twf Busnes ac Ymgynghori Cwmpas yn ei drydedd flwyddyn ac mae'n darparu gwasanaeth ymgynghori busnes i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rydym yn 'ymgynghorwyr ar gyfer newid cadarnhaol', a chawn ein hysgogi gan yr angen i adeiladu cymunedau cryfach a chyfoethocach. Rhan o'n gwaith yw chwilio am ffyrdd o wneud pethau'n well, trwy hyrwyddo arloesi, ymgysylltu ac arbedion effeithlonrwydd. Eleni, rydym wedi cynorthwyo mwy na 40 o gleientiaid i drawsnewid eu gwasanaethau a gweithio mewn ffordd wahanol.

Rhywbeth sydd wrth galon a chraidd ein hethos yw gweithio gyda phobl, cymunedau a busnesau, a'u helpu i gyrraedd y fan y dymunant ei chyrraedd. Mae ein gwasanaethau ymgynghori busnes yn canolbwyntio ar gadw cyflogaeth, caffael a chyfleoedd yn lleol, er mwyn inni allu rhoi hwb i'r bobl sydd o'n cwmpas.

## Cydweithio â'n cleientiaid

Mae ein tîm yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, prifysgolion, elusennau, mentrau cymdeithasol a busnesau yn y sector preifat, gan eu helpu i feddwl yn greadigol a gweithredu'n ddoeth er mwyn iddynt allu ymwreiddio yn eu gweithrediadau y mathau o werthoedd cadarnhaol a fydd yn esgor ar fanteision cymdeithasol ac economaidd cadarn a pharhaus i'r cymunedau a wasanaethant.

Gwerth cymdeithasol, trawsnewid digidol, dysgu a datblygu, strategaethau busnes, ymgysylltu, gwerthuso ac ymchwil – dyma rai o'r dulliau a ddefnyddiwn i esgor ar newid cadarnhaol. Mae nifer ein hymgynghorwyr yn tyfu ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â'n gwerthoedd a'n hagenda bolisi gyffredinol, yn ogystal ag agendâu polisi hollbwysig yng Nghymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn un o'r meini prawf allweddol a ddefnyddiwn ar gyfer ein gwaith. Yn y bôn, mae a wnelo'r Ddeddf â helpu ein cymunedau gwerthfawr yng Nghymru i ffynnu.



## Dechrau Rhywbeth Da®

Lansiodd Cwmpas ei frand Dechrau Rhywbeth Da® sy'n cynnig hacathonau arloesol a chydweithredol er mwyn helpu i ddatrys materion busnes a materion cymdeithasol. Bwriad yr Hac CaredigrwyddTM yw cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, a hefyd ar greadigrwydd a syniadaeth, gan gynnig canlyniadau sy'n seiliedig ar atebion.

**https://cy.cwmpas.coop/dechrau-rhywbeth-da/**

## Meysydd gwaith yn 2022/23

**Trawsnewid gwasanaethau** – fe wnaethom gynorthwyo sefydliadau a'r trydydd sector i werthuso, gwella a gweithredu newid digidol, yn ogystal â diogelu eu dulliau o gyflawni gwasanaethau at y dyfodol.

**Dysgu a datblygu** – gan weithio gydag arweinwyr cymdeithasol a gwneuthurwyr newid cadarnhaol, fe wnaethom ddarparu rhaglenni, gweithdai a Hacathonau a oedd yn anelu'n benodol at ymgysylltu, arloesi ac esgor ar ganlyniadau sy'n seiliedig ar atebion.

**Gwerth cymdeithasol** – fe wnaethom helpu sefydliadau i ddarparu manteision ychwanegol i g ymunedau y tu hwnt i'r prif ddiben, megis contractau. Aethom ati i bennu gwerth cymdeithasol oddi mewn i fusnesau, yn ogystal â chysylltu'r gadwyn gyflenwi â mentrau cymdeithasol a lleol a chynorthwyo i weithredu strategaethau gwerth cymdeithasol.

**Gwerthuso** – cyflawnodd ein tîm werthusiad ar ôl cael cyllid/grant a chyflwynodd ddadansoddiad o'r allbynnau a'r deilliannau yn erbyn yr amcanion.

**Astudiaethau achos** – fe wnaethom gynghori sefydliadau i ddatblygu syniadau a chynlluniau busnes cadarn, trwy gyfrwng sesiynau syniadaeth, ymchwil, gwerthuso, a diwydrwydd dyladwy i gynhyrchu incwm.

**Polisi** – gweithiodd ein cynghorwyr ar ymchwil a datblygu caffael, i gynghori'r llywodraeth ynglŷn â pholisïau er budd adeiladu cyfoeth cymunedol.

**Ymchwil a chyflawni** – cyflawnodd Cwmpas gontractau ledled Cymru gan anelu at effeithio ar gymunedau a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

## Geirdaon

**Nadia Alomar**
Prif Swyddog Gweithredol, Clore Leadership

"Pleser pur fu gweithio gyda Cwmpas. Allen ni ddim bod wedi gofyn am bartner mwy gwybodus na hael i gyd-gyflawni Arweinwyr Cymdeithasol Cymru, sef ein rhaglen arwain flwyddyn o hyd a roddwyd ar waith ledled Cymru. Rydw i'n edrych ymlaen at fynd i'r afael â gwaith gyda'n gilydd yn y dyfodol."

**Alice Kershaw** (hi/ei benywaidd) - Pennaeth Trawsnewid Digidol, Yr Ymddiriedolaethau Natur

"Mae Cwmpas wedi gweithio gyda phum Ymddiriedolaeth Natur Cymru ynglŷn â sut gallwn wneud y gorau o dechnoleg ddigidol i gyflawni nodau strategol er mwyn rhoi bywyd o'r newydd i natur. Llwyddodd Marc Davies, cynghorydd arweiniol, i ysgogi syniadau ynglŷn â'r modd y gall yr Ymddiriedolaethau weithio'n well gyda'i gilydd, gan gynyddu'r ymgysylltu mewn mentrau trawsnewid digidol strategol ledled mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur, ac fe gynorthwyodd gyda gwaith cychwynnol ar sganio'r gorwel mewn perthynas â sut gall technoleg newydd helpu'r Ymddiriedolaethau i ganolbwyntio ar y pethau sy'n wirioneddol bwysig."



# Ein pobl

## Yma, mae Angela Overment, ein Pennaeth Pobl a Diwylliant, yn sôn am rai o'r mentrau allweddol yr aethom i'r afael â nhw yn ystod 2022/23

Yn ôl yr arolwg staff a gynhaliwyd eleni, byddai 91% o'n gweithwyr yn argymell Cwmpas fel lle gwych i weithio ynddo, a dywedodd 93% eu bod yn falch o gael gweithio i'n sefydliad.

Fel yn achos nifer o sefydliadau eraill, penderfynodd Cwmpas weithio o bell yn gyfan gwbl ym mis Mawrth 2020, mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Gan gydnabod y manteision a ddeilliodd o'r newid hwn, yn 2022/23 fe wnaethom benderfynu cau ein swyddfeydd yn barhaol a thrawsnewid ein gweithrediadau yn unol â hynny. Prif ganolbwynt yr adran Pobl a Diwylliant oedd meithrin diwylliant gweithio cadarnhaol o fewn amgylchedd gweithio o bell trwy hyrwyddo ymgysylltu â gweithwyr, datblygu a llesiant.

Drwy gydol y flwyddyn, rhoddwyd pwyslais mawr ar fentrau a oedd yn hyrwyddo amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant. Fel rhan o hyn, comisiynwyd hyfforddiant ar gyfer yr holl staff lle canolbwyntiwyd yn bennaf ar bynciau fel gwrth-hiliaeth, anabledd, cynhwysiant LHDTC+, a niwroamrywiaeth.

Fe wnaethom fuddsoddi mewn hyfforddiant yn ymwneud â'r Gymraeg a dylunio gwasanaethau mewn modd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, er mwyn grymuso ein staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cleientiaid. Hefyd, parhaodd ein gweithwyr i ddefnyddio ein platfform e-ddysgu i gael gafael ar amryfal gyfleoedd hyfforddi eraill.

Er mwyn sicrhau tegwch, fe wnaethom gynnal ymarfer gwerthuso swyddi cynhwysfawr, gan fynd ati hefyd i adolygu cyflogau. Cafodd ein prosesau recriwtio a dethol eu mireinio er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dod o hyd i'r ymgeiswyr mwyaf addas. Yn bwysicaf oll, fe wnaethom gynnwys ein staff yn y dasg o recriwtio ein Prif Weithredwr newydd – rhywbeth a oedd yn cyd-fynd â'n gwerthoedd fel sefydliad ac a lwyddodd hefyd i feithrin diwylliant cadarnhaol a chynhwysol yn y gweithle.



Yn ôl yr arolwg staff a gynhaliwyd eleni, byddai

**91%**

o'n gweithwyr yn argymell Cwmpas fel lle gwych i weithio ynddo, a dywedodd 93% eu bod yn falch o gael gweithio i'n sefydliad.

# Ein sefyllfa ariannol

## Yma, mae Joanna Jones, ein Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, yn crynhoi ein sefyllfa ariannol

Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd Cwmpas drosiant o £7.3m. Dyma gynnydd o gymharu â’r £6.5m a gynhyrchwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Cynhyrchodd Cwmpas warged o £89K. Bydd yr arian hwn yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn hyrwyddo mwy ar ddiben ac amcanion y Gymdeithas. Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau Cwmpas yn gweithredu ar sail adennill costau.

Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd Cwmpas drosiant o

**£7.3m**

Dyma gynnydd o gymharu â’r £6.5m a gynhyrchwyd yn y flwyddyn flaenorol.



## Ein cyllidwyr

Diolch i bob un o'n cyllidwyr am eu cefnogaeth

## Ein hachrediadau



Cwmpas, Sbarc, Stryd Maendy
Caerdydd, CF24 4HQ

Ffôn: **0300 111 5050**
Ebost: **info@cwmpas.coop**
Gwe: **cwmpas.coop**

Mae Cwmpas, a elwid yn flaenorol yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, fel print bras neu braille, ar gael ar gais. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg, a cheisiwn ddarparu safon gyfartal o ran gwasanaeth yn y ddwy iaith.